08.12.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Y gwaith caled tu ôl i greu cartref cysurus

Weithiau, mae'n cymryd amser, ymrwymiad a gweledigaeth - heb sôn am waith caled - i drawsnewid hen adeilad sydd wedi gweld dyddiau gwell mewn i gartref cysurus.

Ond y tro hwn ar **Dan Do** mae'r cynllunydd mewnol Mandy Watkins a'r cyflwynydd Aled Samuel yn ymweld â dau dŷ sydd wedi cael eu trawsnewid yn llwyr a thŷ modern sydd wedi cael ei godi o'r newydd.

Ym mhentref glan môr Porth Tywyn yn Sir Gâr mae Aled Samuel yn cychwyn ei daith ac i dŷ Sioraidd ar safle unigryw lle mae'r olygfa tu allan yr un mor bwysig â'r hyn sydd i'w weld tu mewn.

Fe drodd y gwaith adeiladu ar Blas Cenros yn brosiect enfawr i Ian a Patricia Rees ac mae hanes y tŷ gwreiddiol yn mynd nôl ganrifoedd - dyma Ian yn adrodd yr hanes.

"Ni'n teimlo, falle, bod dwy ran i'r tŷ. Mae'r rhan wrth y cwt yn fwy na thebyg wedi bod yn hen fwthyn - mae sawl tyddyn rownd y mynydd 'ma - ac mae hynna'n mynd nôl canrifoedd," meddai Ian.

Adeiladwyd yr ail ran o'r tŷ yn y 1800au gan ddyn busnes o Lundain a gafodd ei ddenu i Borth Tywyn gan y diwydiant glo a'r harbwr.

Cymerodd y gwaith ar y tŷ rhyw 18 mis i'w gwblhau ond mae Ian a Patricia yn falch iawn o'r holl waith caled.

"Odd e'n anodd ond dwi'n meddwl bod pethe wedi dod yn neis," meddai Ian.

Mandy sy'n ymweld â'r ail dŷ ger Llangollen, sef hen ysgubor oedd mewn cyflwr truenus ac sydd wedi ei thrawsnewid mewn i gartref pum ystafell.

Mae Mandy wrth ei bodd gyda'r adeilad - yn enwedig yr holl waith pren gwreiddiol.

"Mae'n ddiddorol gweld sut mae pobl yn addasu hen adeiladau fferm i fod yn gartrefi cysurus teuluol. Y peth mwya' trawiadol ydy'r nenfwd - esgyrn y tŷ - mae'r coed 'ma a'r gofod yn fendigedig," meddai Mandy.

Mae Mandy ac Aled yn ymweld â'r trydydd tŷ yn Ffwrnais, Ceredigion - cartref Catrina a Llion Jenkins sy'n magu teulu bach ar aelwyd newydd sbon yn ogystal â rhedeg dau fusnes - adeilad sy'n profi bod cartref yn gallu cynnig cymaint mwy na dim ond lle i fyw.

Fe gymerodd hi saith mis i adeiladu'r tŷ. "Oedd e wastod yn ein meddyliau ni i godi tŷ ein hunain," meddai Llion. "Ond oni ddim yn meddwl se ni'n neud e mor gyflym ac mor ifanc! Ond oni moyn neud e'n glou i gael neud e ac i joio byw 'ma."

Mae Catrina yn cytuno. "Roedd Llion yn gallu gwneud lot o'r gwaith, felly oedd e'n neud sens adeiladu tŷ ein hunan yn hytrach na phrynu tŷ newydd sy'n costi lot mwy."

Mae gan y cwpl sawl ffrind yn y byd adeiladu - ac roedd hyn yn help wrth adeiladu'r tŷ ac i gadw pethau mor lleol â phosib.

Ers iddyn nhw symud mewn i'r tŷ mae Llion wedi trawsnewid y garej i fod yn salon i Catrina sy'n gweithio yn y maes harddwch.

Mae gan y cwpl un plentyn ac un arall ar y ffordd ac mae'r teulu ifanc yn amlwg yn hapus yn eu cartref hyfryd. Meddai Llion: "Da ni mwy na hapus! Da ni wedi setlo lawr 'ma. Mae popeth wedi gweithio mas yn dda."

Dewch i ddysgu mwy am y tri phrosiect anhygoel yma ar **Dan Do** ar S4C nos Fercher, 21 Rhagfyr am 8.25yh.

**Dan Do**
**Nos Fercher 21 Rhagfyr 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom ar gyfer S4C**

08.12.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# The hard work that goes in to creating a comfortable home

Sometimes it takes time, commitment and vision – not to mention hard work – to transform an old building which has seen better days into a comfortable home.

This time on **Dan Do** the interior designer Mandy Watkins and the presenter Aled Samuel visit two houses which have been completely transformed and a newly built modern house.

In the seaside town of Burry Port in Carmarthenshire, Aled Samuel begins his journey with a visit to a Georgian house in an unique location where the view outside is just as important as what can be seen inside.

The restoration work at Plas Cenros turned into a massive project for Ian and Patricia Rees and the history of the original house goes back centuries.

Ian explains a bit of its history. "We think, maybe that there are two parts to the house. The back part was more than likely an old cottage – there are several smallholdings around the mountain here – and this goes back centuries," said Ian.

The second part of the house was built in the 1800s by a businessman from London who was attracted to the area by coal and the harbour.

The work on the house took around 18 months to complete but Ian and Patricia are very proud of all the hard work.

"It was tough but I think that things have turned out well," said Ian.

Mandy visits the second house near Llangollen – an old barn which was in a pitiful state but has now been transformed into a five-bedroom home.

Mandy loves the barn conversion – especially all the original wooden beams.

"It's interesting to see how people adapt old farm houses into comfortable family homes. The most striking thing is the ceiling – the bones of the house – the wood here makes a beautiful space," said Mandy.

Mandy and Aled visit a third house in Furnace, Ceredigion – home to Catrina and Llion Jenkins who are bringing up their young family in a new build which is also the base for two businesses. It's a building which proves that a house can offer so much more than just a place to live.

It took just seven months to build the house. "We had always intended to build our own house," said Llion. "But I didn't think we'd do it so quickly or at such a young age. We wanted to do it quickly so that it was done and we could enjoy living here."

Catrina agrees. "Llion could do a lot of the work, so it made sense to build our own house instead of buying a house which costs a lot more."

The couple have several friends who work in the building trade – and this helped when it came to building the house and also keeping things as local as possible.

Since they moved into the house, Llion has transformed the garage into a salon for Catrina who works in the beauty business.

The couple have one child with another on the way and they are obviously very happy in their lovely home. Llion said: "We are more than happy! We have settled in here. Everything has worked out well."

Learn more about these three amazing projects in Dan Do on S4C, Wednesday, 21 December at 8.25pm.

**Dan Do**
**Wednesday 21 December 8.25, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**